Cofnodion cyfarfod y Cabinet ar 21 Mehefin 2016

Yn bresennol:

- Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC, Prif Weinidog (Cadeirydd)
- Mark Drakeford AC
- Vaughan Gething AC
- Lesley Griffiths AC
- Jane Hutt AC
- Carl Sargeant AC
- Kirsty Williams AC

Swyddogion:

- Syr Derek Jones KCB, yr Ysgrifennydd Parhaol
- Des Clifford, Cyfarwyddwr – Swyddfa'r Prif Weinidog a'r Cabinet
- Peter Greening, Pennaeth Is-adran y Cabinet
- Jo Salway, Pennaeth Swyddfa'r Cabinet
- Toby Mason, Pennaeth Cyfathrebu Strategol
- Matt Greenough, Cynghorydd Arbennig
- Madeleine Brindley, Cynghorydd Arbennig
- David Costa, Cynghorydd Arbennig
- Kate Edmunds, Cynghorydd Arbennig
- Andrew Johnson, Cynghorydd Arbennig
- Alex Rawlin, Cynghorydd Arbennig
- Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig
- Christopher W Morgan, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau (cofnodion)
- Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau
- Will Whiteley, Pennaeth Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a Llywodraethiant (eitem 4)
- Margaret Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllidebu Strategol (eitem 5)
- Bethan Jones, Arweinydd Cyflawni'r Gyllideb Flynyddol (eitem 5)
- Owen Evans, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus (eitem 6)
- Steve Davies, Cyfarwyddwr, y Gyfarwyddiaeth Addysg (eitem 6)

Ymddiheuriadau:

- Ken Skates AC

Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

1.1 Cymeradwyodd y Cabinet gofnodion y cyfarfod blaenorol.

Eitem 2: Eitemau'r Prif Weinidog

Teyrngedau i Jo Cox AS

2.1 Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Cabinet y byddai'r Cyfarfod Llawn yn dechrau'r diwrnod hwnnw gyda theyrngedau i'w cyd Seneddwr Jo Cox AS, a oedd wedi cael ei llofruddio'r wythnos flaenorol wrth ei gwaith yn ei hetholaeth.

Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig – Glasgow

2.2 Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Cabinet y byddai ef, a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ac Iechyd y Cyhoedd, wedi mynychu'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Glasgow ddydd Gwener.

Y Bencampwriaeth Bêl-droed Ewropeaidd

2.3 Cofnododd y Prif Weinidog ei longyfarchiadau i Dîm Pêl Droed Cymru ar gyrraedd ail rownd y Bencampwriaeth Bêl-droed Ewropeaidd. Roedd y cyhoeddusrwydd ychwanegol ynghylch perfformiad y tîm yn debygol o godi proffil Cymru ac fe allai roi hwb i dwristiaeth.

Eitem 3: Busnes Cyfarfod Llawn y Llywodraeth

3.1 Nododd y Cabinet gynnwys grid y Cyfarfod Llawn.

3.2 Adroddwyd y byddai Pwyllgor Busnes y Cynulliad yn trafod aelodaeth a maint Pwyllgorau mewn cyfarfod ychwanegol y diwrnod canlynol.

Eitem 4: Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru

4.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog y papur, a ofynnodd i'r Cabinet gytuno i'r cynigion a fyddai'n cael eu cynnwys ym mlwyddyn gyntaf rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth, yn ogystal â blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd olynol. Byddai hyn yn rhan o gynnwys Datganiad i'r Cynulliad y byddai'r Prif Weinidog yn ei gyflwyno'r wythnos ganlynol.

4.2 Croesawodd y Cabinet y papur a nodi y câi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Fil drafft ALNET, a oedd wedi dod i ben cyn etholiadau'r Cynulliad, eu cyhoeddi cyn toriad yr haf. Ymhellach, câi fersiwn ddrafft o'r Bil Treth Trafodiadau Tir ei chyhoeddi at ddibenion ymgynghori, hefyd cyn y toriad.

4.3 Cymeradwyodd y Cabinet y papur.

Eitem 5: Strategaeth y Gyllideb

5.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y papur, a ofynnodd i'r Cabinet gytuno i'r dull o baratoi am Gyllideb eleni.

5.2 Cymeradwyodd y Cabinet y papur

Eitem 6: Safonau Ysgolion

6.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y papur, a ofynnodd i'r Cabinet gytuno i'r dull gweithredu ar gyfer codi safonau ysgolion a blaenoriaethau addysgol.

6.2 Croesawodd y Cabinet y papur a chydnabod mai agenda drawsbynciol o bwys oedd hon a bod gan bob Adran ran i'w chwarae.

6.3 Cymeradwyodd y Cabinet y papur.

Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau
Mehefin 2016